Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011**

**COMPLIANCE NOTICE – SECTION 44 WELSH LANGUAGE (WALES) MEASURE 2011**

**Dŵr Cymru | Welsh Water**

**Dyddiad dyroddi | Issue date –** 13/08/2024

| Rhif y safon:<br><br>Standard number: | Safon | Standard | Diwrnod gosod:<br><br>Imposition day: |
|---|---|---|---|
| **Dosbarth: Class:** | **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau** | **Service Delivery Standards** | |
| 1 | Os byddwch yn cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P"), rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod P wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 1 ymhob amgylchiad ac eithrio:<br>o mewn perthynas ag Asiantaethau Casglu Dyledion - DCAs | If you receive correspondence from a member of the public in Wales ("P") in Welsh, you must reply in Welsh (if an answer is required), unless P has indicated that there is no need to reply in Welsh.<br><br>You must comply with standard 1 in every circumstance, except:<br>o In relation to Debt Collection Agencies | 13/08/2025 |
| 2 | Oni bai eich bod yn anfon pob gohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system at aelod o'r | Unless you send all system generated correspondence in Welsh to a member of the | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyhoedd yng Nghymru ("P") yn Gymraeg, pan fyddwch yn anfon gohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system at P am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno cael gohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw P yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi—<br>(a) cadw cofnod o ddymuniad P,<br>(b) anfon unrhyw ohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system a anfonwch at P o hynny ymlaen yn Gymraeg. | public in Wales ("P"), when you send system generated correspondence to P for the first time, you must ask P whether P wishes to receive system generated correspondence from you in Welsh, and if P responds to say that P wishes to receive system generated correspondence in Welsh you must—<br><br>(a) keep a record of P's wish,<br>(b) send any system generated correspondence you send to P from then onwards in Welsh. | |
| 3 | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at sawl aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.<br>Rhaid cydymffurfio â safon 3 ymhob amgylchiad ac eithrio:<br>o mewn perthynas ag Asiantaethau Casglu Dyledion - DCAs | When you send the same correspondence to several members of the public in Wales, you must send a Welsh language version of the correspondence at the same time as you send any English language version.<br><br>You must comply with standard 3 in every circumstance, except:<br>o In relation to Debt Collection Agencies | 13/08/2025 |
| 4 | Os nad ydych yn gwybod a yw aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") yn dymuno cael gohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system oddi wrthych yn Gymraeg, rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn anfon gohebiaeth sydd wedi ei chynhyrchu gan system at y P hwnnw. | If you don't know whether a member of the public in Wales ("P") wishes to receive system generated correspondence from you in Welsh, when you send system generated correspondence to that P you must provide a Welsh language version. | 13/08/2025 |
| 5 | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r | If you produce a Welsh language version and a corresponding English language version of correspondence, you must not treat the Welsh | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | language version less favourably than the English language version (for example, if the English version is signed, or if contact details are provided on the English version, then the Welsh version must be treated in the same way). | |
| 6 | Rhaid ichi ddatgan—<br>(a) mewn gohebiaeth at aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch,<br><br>eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | You must state—<br>(a) in correspondence to members of the public in Wales, and<br>(b) in publications and notices that invite members of the public in Wales to respond to you or to correspond with you,<br><br>that you welcome receiving correspondence in Welsh, that you will respond to correspondence in Welsh, and that corresponding in Welsh will not lead to delay. | 13/08/2025 |
| 7 | Pan fydd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") yn cysylltu â chi ar eich rhifau llinell gymorth ymholiadau cyfrifon neu ar eich rhifau llinell gymorth gwasanaeth a bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, rhaid ichi roi gwybod i P bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. | When a member of the public in Wales ("P") contacts you on your account enquiries helpline numbers or your service helpline numbers and a Welsh language service is available, you must inform P that a Welsh language service is available. | 13/08/2025 |
| 8 | Pan fydd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") yn cysylltu â chi ar eich rhifau llinell gymorth ymholiadau cyfrifon, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw P yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg pan fo hynny'n angenrheidiol). | When a member of the public in Wales ("P") contacts you on your account enquiries helpline numbers, you must deal with the call in Welsh in its entirety if that is P's wish (where necessary by transferring the call to a member of staff who is able to deal with the call in Welsh). | 13/08/2025 |
| 11 | Pan fydd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") yn cysylltu â chi ar eich rhifau llinell gymorth | When a member of the public in Wales ("P") contacts you on your service helpline numbers, | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwasanaeth, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw P yn dymuno hynny—<br>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol, a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 11 ym mhob amgylchiad ac eithrio:<br>○ llinell gymorth y gwasanaeth datblygu. | you must deal with the call in Welsh if that is P's wish until such point as—<br>(a) it is necessary to transfer the call to a member of staff who does not speak Welsh who can provide a service on a specific subject matter, and<br>(b) no Welsh speaking member of staff is available to provide a service on that specific subject matter.<br><br>You must comply with standard 11 in every circumstance, except:<br>○ developer services support line. | |
| 12 | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, rhifau llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau a phan fo'r gynulleidfa a ragwelir yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you advertise telephone numbers, helpline numbers or call centre services and where the anticipated audience includes members of the public in Wales, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language. | 13/08/2025 |
| 13 | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich rhifau llinell gymorth ymholiadau cyfrifon a'ch rhifau llinell gymorth gwasanaeth a phan fo'r gynulleidfa a ragwelir yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, rhaid ichi ddatgan (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | When you publish your account enquiries helpline numbers and your service helpline numbers and where the anticipated audience includes members of the public in Wales, you must state (in Welsh) that you welcome calls in Welsh. | 13/08/2025 |
| 14 | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | If you have performance indicators for dealing with telephone calls, you must ensure that those performance indicators do not treat telephone calls made in Welsh any less favourably than calls made in English. | 13/08/2025 |
| 15 | Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i aelodau o'r | Your main telephone call answering service (or services) must inform members of the public in | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyhoedd yng Nghymru sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | Wales calling, in Welsh, that they can leave a message in Welsh. | |
| 16 | Pan nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich rhifau llinell gymorth ymholiadau cyfrifon neu eich rhifau llinell gymorth gwasanaeth, rhaid ichi roi gwybod i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n galw, yn Gymraeg (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall), pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | When there is no Welsh language service available on your account enquiries helpline numbers or your service helpline numbers, you must inform members of the public in Wales calling, in Welsh (by way of an automated message or otherwise), when a Welsh language service will be available. | 13/08/2025 |
| 17 | Rhaid i unrhyw systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg pan fo'r gynulleidfa a ragwelir yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. | Any automated telephone systems that you have must provide the complete automated service in Welsh where the anticipated audience includes members of the public in Wales. | 13/08/2026 |
| 18 | Os byddwch yn gwahodd un aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") yn unig i gyfarfod i'w gynnal yng Nghymru—<br>(a) rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a<br>(b) os yw P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | If you invite one member of the public in Wales ("P") only to a meeting to be held in Wales—<br><br>(a) you must ask P whether P wishes to use the Welsh language at the meeting, and inform P that you will conduct the meeting in Welsh, or, if necessary, provide a translation service from Welsh to English for that purpose, and<br>(b) if P has informed you that P wishes to use the Welsh language at the meeting, you must conduct the meeting in Welsh or, if necessary, arrange for a simultaneous or a consecutive translation service from Welsh to English to be available at the meeting. | 13/08/2025 |
| 19 | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod i'w gynnal yng Nghymru, rhaid ichi ofyn i bob aelod o'r cyhoedd yng Nghymru a gafodd ei | If you invite more than one person to a meeting to be held in Wales, you must ask each member of the public in Wales invited whether they wish to use the Welsh language at the meeting. | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wahodd a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | | |
| 19B | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod i'w gynnal yng Nghymru, a bod o leiaf 20% o'r aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru a gafodd eu gwahodd wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | If you have invited more than one person to a meeting to be held in Wales, and at least 20% of the members of the public in Wales invited have informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting, you must conduct the meeting in Welsh or, if necessary, arrange for a simultaneous or a consecutive translation service from Welsh to English to be available at the meeting. | 13/08/2025 |
| 20 | Os byddwch yn trefnu cyfarfod i'w gynnal yng Nghymru sy'n agored i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | If you arrange a meeting to be held in Wales that is open to members of the public in Wales and at which public participation by a member of the public in Wales is allowed, you must state on any material advertising it, and on any invitation to it, that anyone attending is welcome to use the Welsh language at the meeting. | 13/08/2025 |
| 21 | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod i'w gynnal yng Nghymru yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ynddo, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | When you send invitations to a meeting to be held in Wales that you arrange which is open to members of the public in Wales and at which public participation by a member of the public in Wales is allowed, you must send the invitations in Welsh. | 13/08/2025 |
| 22 | Os byddwch yn trefnu cyfarfod i'w gynnal yng Nghymru sy'n agored i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru ac y caniateir cyfranogiad cyhoeddus gan aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ynddo, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a | If you arrange a meeting to be held in Wales that is open to members of the public in Wales and at which public participation by a member of the public in Wales is allowed, you must ensure that a simultaneous translation service from Welsh to English is available at the meeting, and you must orally inform those present in Welsh— | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—<br>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br><br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. | (a) that they are welcome to use the Welsh language, and<br>(b) that a simultaneous translation service is available. | |
| 23 | Os byddwch yn llunio ac yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod a gynhelir yng Nghymru yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | If you produce and display any written material at a meeting held in Wales that you arrange which is open to members of the public in Wales, you must ensure that the material is displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language text less favourably than the English language text. | 13/08/2025 |
| 24 | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus i'w gynnal yng Nghymru, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | If you organise a public event to be held in Wales, you must ensure that, in promoting the event, the Welsh language is treated no less favourably than the English language (for example, in the way the event is advertised or publicised). | 13/08/2025 |
| 25 | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus i'w gynnal yng Nghymru, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).<br><br>Rhaid cydymffurfio ymhob amgylchiad â safon 25 ac eithrio: | If you organise a public event to be held in Wales, you must ensure that the Welsh language is treated no less favourably than the English language at the event (for example, in relation to services offered to persons attending the event, in relation to signs displayed at the event, and in relation to audio announcements made at the event).<br><br>You must comply with standard 25 in every circumstance, except: | 13/02/2026 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ○ lle bo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>○ lle nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw | ○ where it is necessary for a member of staff who does not speak Welsh to provide a service on a specific subject; and<br>○ where there is no Welsh-speaking member of staff available to provide a service on that specific subject | |
| 26 | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu unrhyw ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg pan fo'r gynulleidfa a ragwelir yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Any publicity or advertising material that you produce must be produced in Welsh where the anticipated audience includes members of the public in Wales, and if you produce the material in Welsh and in English, you must not treat the Welsh language version less favourably than you treat the English language version. | 13/08/2025 |
| 27 | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus yng Nghymru gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | Any material that you produce and display in public in Wales must be displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language version of the material less favourably than the English language version. | 13/08/2025 |
| 28 | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos mewn arddangosfa gyhoeddus yng Nghymru sydd wedi ei threfnu gennych gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg. | Any material that you produce and display at a public exhibition in Wales organised by you must be displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language version of the material less favourably than you treat an English language version. | 13/08/2025 |
| 29 | Os byddwch yn llunio dogfen sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg—<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu | If you produce a document which is available to members of the public in Wales, you must produce it in Welsh—<br>(a) if the subject matter of the document suggests that it should be produced in Welsh, or | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'i disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | (b) if the anticipated audience, and their expectations, suggests that the document should be produced in Welsh. | |
| 30 | Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | If you produce a document in Welsh and in English (whether separate versions or not), you must not treat any Welsh language version less favourably than you treat the English language version. | 13/08/2025 |
| 31 | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. | If you produce a Welsh language version and a separate English language version of a document, you must ensure that the English language version clearly states that the document is also available in Welsh. | 13/08/2025 |
| 32 | Pan fyddwch yn anfon ffurflen at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno cael ffurflenni yn Gymraeg, ac os yw P yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi—<br>(a) cadw cofnod o ddymuniad P, a<br>(b) anfon unrhyw ffurflenni a anfonwch at P o hynny ymlaen yn Gymraeg.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 32 ac eithrio:<br>○ pan fydd y ffurflenni mewn perthynas ag Asiantaethau Casglu Dyledion – DCAs<br><br>Rhaid cydymffurfio gyda safon 32 mewn perthynas â ffurflenni ar system 'SAP Success Factors' erbyn 13/08/2026. | When you send a form to a member of the public in Wales ("P") for the first time, you must ask P whether P wishes to receive forms in Welsh, and if P responds to say that P wishes to receive forms in Welsh you must—<br>(a) keep a record of P's wish, and<br>(b) send any forms you send to P from then onwards in Welsh.<br><br>You must comply with standard 32 except:<br>○ when the forms are in relation to Debt Collection Agencies<br><br>You must comply with standards 32 in relation to forms on the 'SAP Success Factors' system by 13/08/2026. | 13/08/2025 |
| 33 | Os nad ydych yn gwybod a yw aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") yn dymuno cael ffurflenni oddi wrthych yn Gymraeg, rhaid ichi ddarparu fersiwn | If you don't know whether a member of the public in Wales ("P") wishes to receive forms from you in | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gymraeg pan fyddwch yn anfon ffurflen at y P hwnnw.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 33 ac eithrio:<br>○ mewn perthynas ag Asiantaethau Casglu Dyledion - DCAs<br><br>Rhaid cydymffurfio gyda safon 33 mewn perthynas â ffurflenni ar system 'SAP Success Factors' erbyn 13/08/2026. | Welsh, when you send a form to that P you must provide a Welsh language version.<br><br>You must comply with standard 33 except:<br>○ In relation to Debt Collection Agencies<br><br>You must comply with standards 33 in relation to forms on the 'SAP Success Factors' system by 13/08/2026. | |
| 34 | Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru gael ei llunio yn Gymraeg, ac—<br>(a) os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg;<br><br>(b) os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft, mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 34 ac eithrio: | Any form that you make available to members of the public in Wales must be produced in Welsh, and—<br>(a) if you produce a Welsh language version and a separate English language version of a form, you must ensure that the English language version clearly states that the form is also available in Welsh;<br>(b) if you produce a form in Welsh and in English (whether separate versions or not), you must ensure that the Welsh language version is treated no less favourably than the English language version, and you must not differentiate between the Welsh and English versions in relation to any requirements that are relevant to the form (for example in relation to any deadline for submitting the form, or in relation to the time allowed to respond to the content of the form).<br><br>You must comply with standard 34 except:<br>○ In relation to Debt Collection Agencies | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ○ mewn perthynas ag Asiantaethau Casglu Dyledion - DCAs<br><br>Rhaid cydymffurfio gyda safon 34 mewn perthynas â ffurflenni ar system 'SAP Success Factors' erbyn 13/08/2026. | You must comply with standards 34 in relation to forms on the 'SAP Success Factors' system by 13/08/2026. | |
| 35 | Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ("P") er mwyn i P wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg. | If you pre-enter information on a Welsh language version of a form (for example, before sending it to a member of the public in Wales ("P") in order for P to check the content or to fill in the remainder of the form), you must ensure that the information that you pre-enter is in Welsh. | 13/08/2025 |
| 36 | Rhaid ichi sicrhau—<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. | You must ensure that—<br>(a) the text of each page of your website is available in Welsh,<br>(b) every Welsh language page on your website is fully functional, and<br>(c) the Welsh language is not treated less favourably than the English language on your website. | 13/08/2025 |
| 39 | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | If you have a Welsh language web page that corresponds to an English language web page, you must state clearly on the English language web page that the page is also available in Welsh, and you must provide a direct link to the Welsh page on the corresponding English page. | 13/08/2025 |
| 40 | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | You must provide the interface and menus on every page of your website in Welsh. | 13/08/2025 |
| 42 | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi i'w ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid | All apps that you publish for use by members of the public in Wales must function fully in Welsh, and the Welsh language must be treated no less | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | favourably than the English language in relation to that app. | |
| 43 | Os oes gennych gyfleuster sgwrsio byw i'w ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, rhaid ichi ei ddarparu yn Gymraeg.<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 43 ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>○ **y gwasanaeth datblygu.** | If you have a live chat facility for use by members of the public in Wales, you must provide it in Welsh.<br><br>**You must comply with standard 43 in every circumstance, except:**<br>○ **developer services.** | 13/08/2025 |
| 43A | Rhaid ichi ddatgan (yn Gymraeg) ar eich gwefan fod eich cyfleuster sgwrsio byw ar gael yn Gymraeg a sut y gellir dod o hyd iddo.<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 43A ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>○ **y gwasanaeth datblygu.** | You must state (in Welsh) on your website that your live chat facility is available in Welsh and how it can be accessed.<br><br>**You must comply with standard 43A in every circumstance, except:**<br>○ **developer services.** | 13/08/2025 |
| 44 | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you use social media, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language. | 13/08/2025 |
| 45 | Os bydd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | If a member of the public in Wales contacts you by social media in Welsh, you must reply in Welsh (if an answer is required). | 13/08/2025 |
| 46 | Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yng Nghymru yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw. | You must ensure that any self service machines that you have in Wales function fully in Welsh, and the Welsh language must be treated no less favourably than the English language in relation to that machine. | 13/08/2025 |
| 47 | Pan fyddwch yn creu arwydd i'w osod yng Nghymru (pa un ai'n barhaol neu dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai | When you create a sign to be erected in Wales (whether permanent or temporary), any text displayed on the sign must be displayed in Welsh (whether on the same sign as you display | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | corresponding English language text or on a separate sign); and if the same text is displayed in Welsh and in English, you must not treat the Welsh language text less favourably than the English language text. | |
| 48 | Pan fyddwch yn creu arwydd i'w osod yng Nghymru (pa un ai'n barhaol neu dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | When you create a sign to be erected in Wales (whether permanent or temporary) which conveys the same information in Welsh and in English, the Welsh language text must be positioned so that it is likely to be read first. | 13/08/2025 |
| 51 | Os nad oes gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg ar gael yn eich derbynfa, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael dros ffôn yn eich derbynfa. | If you have no face to face Welsh language reception service available at your reception, you must ensure that a Welsh language reception service is available over a phone in your reception. | 13/08/2025 |
| 52 | Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. | You must display a sign in your reception which states (in Welsh) that members of the public are welcome to use the Welsh language at the reception. | 13/08/2025 |
| 53 | Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos yng Nghymru gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | Any notice that you publish or display in Wales must be published or displayed in Welsh, and you must not treat any Welsh language version of a notice less favourably than an English language version. | 13/08/2025 |
| 54 | Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad yng Nghymru sy'n cynnwys testun Cymraeg yn ogystal â thestun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | When you publish or display a notice in Wales that contains Welsh language text as well as English language text, the Welsh language text must be positioned so that it is likely to be read first. | 13/08/2025 |
| 55 | Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant y | Any documents that you publish which relate to applications for a grant which members of the | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | caniateir i aelodau o’r cyhoedd yng Nghymru wneud cais amdano, gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o’r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt. | public in Wales may apply for, must be published in Welsh, and you must not treat a Welsh language version of such documents less favourably than an English language version. | |
| 56 | Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant y caniateir i aelodau o’r cyhoedd yng Nghymru wneud cais amdano, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gan aelodau o’r cyhoedd yng Nghymru gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. | When you invite applications for a grant which members of the public in Wales may apply for, you must state in the invitation that applications from members of the public in Wales may be submitted in Welsh and that any application submitted in Welsh will be treated no less favourably than an application submitted in English. | 13/08/2025 |
| 56A | Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant y caniateir i aelodau o’r cyhoedd yng Nghymru wneud cais amdano a gyflwynir yn Gymraeg gan aelod o’r cyhoedd yng Nghymru yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â’r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau). | You must not treat applications for a grant which members of the public in Wales can apply for submitted in Welsh by a member of the public in Wales less favourably than applications submitted in English (including, amongst other matters, in relation to the closing date for receiving applications, and in relation to the time-scale for informing applicants of decisions). | 13/08/2025 |
| 57 | Os byddwch yn cael cais yn Gymraeg gan aelod o’r cyhoedd yng Nghymru am grant y caniateir i aelodau o’r cyhoedd yng Nghymru wneud cais amdano, a bod angen cyf-weld â’r ymgeisydd fel rhan o’ch asesiad o’r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw’r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol). | If you receive an application in Welsh from a member of the public in Wales for a grant which members of the public in Wales can apply for, and it is necessary to interview the applicant as part of your assessment of the application, you must offer to conduct that interview in Welsh and, if the applicant so wishes, you must conduct the interview in Welsh (without the assistance of a simultaneous or consecutive translation service). | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 59 | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw eich penderfyniad mewn perthynas â chais am grant y caniateir i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru wneud cais amdano, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg gan aelod o'r cyhoedd yng Nghymru. | When you inform an applicant of your decision in relation to an application for a grant which members of the public in Wales can apply for, you must do so in Welsh if the application was submitted in Welsh by a member of the public in Wales. | 13/08/2025 |
| 60 | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | You must promote any Welsh language service that you provide, and advertise that service in Welsh. | 13/08/2025 |
| 61 | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu unrhyw ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu unrhyw wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg ddatgan hefyd fod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | If you provide a service in Welsh that corresponds to a service you provide in English, any publicity or document that you produce, or website that you publish, which refers to the English service must also state that a corresponding service is available in Welsh. | 13/08/2025 |
| 62 | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | When you form, revise or present your corporate identity, you must not treat the Welsh language less favourably than the English language. | 13/08/2025 |
| 63 | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg yng Nghymru sy'n agored i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 63 ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>○ **Cyrsiau i Blymwyr yn gysylltiedig â'r Ddeddf Rheoliadau a Ffitiadau Dŵr.** | If you offer an education course in Wales that is open to members of the public in Wales, you must offer it in Welsh.<br><br>**You must comply with standard 63 in every circumstance, except:**<br>○ **Training for Plumbers linked to the Water Regulations & Fittings Act.** | 13/08/2025 |
| 64 | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg yng Nghymru sy'n agored i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, ac sydd wedi ei anelu'n benodol at bersonau sy'n 18 oed neu'n iau, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. | If you offer an education course in Wales that is open to members of the public in Wales, and which is aimed specifically at persons aged 18 or under, you must offer it in Welsh. | 13/08/2025 |

| Dosbarth: Class: | Safonau Cadw Cofnodion | Record Keeping Standards | |
|---|---|---|---|
| 66 | Rhaid ichi gadw—<br>(a) cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau;<br>(b) copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | You must keep—<br>(a) a record, in relation to each financial year, of the number of complaints you receive relating to your compliance with standards;<br>(b) a copy of any written complaint that you receive that relates to your compliance with the standards with which you are under a duty to comply. | 13/08/2025 |
| 67 | Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael ynghylch y Gymraeg sy'n ymwneud â'ch darpariaeth o wasanaethau penodedig (pa un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio). | You must keep a copy of any written complaint that you receive concerning the Welsh language that relates to the provision by you of specified services (whether or not that complaint relates to the standards with which you are under a duty to comply). | 13/08/2025 |
| **Dosbarth: Class:** | **Safonau Atodol** | **Supplementary Matters** | |
| 68 | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan. | You must ensure that a document which records the service delivery standards with which you are under a duty to comply, and the extent to which you are under a duty to comply with those standards, is available on your website. | 13/08/2025 |
| 69 | Rhaid ichi—<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan. | You must—<br>(a) ensure that you have a complaints procedure that deals with how you intend to deal with complaints relating to your compliance with the service delivery standards with which you are under a duty to comply, and<br>(b) publish a document that records that procedure on your website. | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 70 | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan. | (1) You must produce a report (an “annual report”), in Welsh, in relation to each financial year, which deals with the way in which you have complied with the service delivery standards with which you were under a duty to comply during that year.<br>(2) The annual report must include the number of complaints that you received during that year which related to your compliance with the service delivery standards with which you were under a duty to comply.<br>(3) You must publish the annual report no later than 6 months following the end of the financial year to which the report relates.<br>(4) You must ensure that a current copy of your annual report is available on your website. | 13/08/2025 |
| 71 | Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | You must publish a document on your website which explains how you intend to comply with the service delivery standards with which you are under a duty to comply. | 13/08/2025 |
| 72 | Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy’n ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | You must provide any information requested by the Welsh Language Commissioner which relates to your compliance with the service delivery standards with which you are under a duty to comply. | 13/08/2025 |
| 73 | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy’n cofnodi’r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan. | You must ensure that a document which records the record keeping standards with which you are under a duty to comply, and the extent to which you are under a duty to comply with those standards, is available on your website. | 13/08/2025 |
| 74 | Rhaid ichi— | You must— | 13/08/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan. | (a) ensure that you have a complaints procedure that deals with how you intend to deal with complaints relating to your compliance with the record keeping standards with which you are under a duty to comply, and<br>(b) publish a document that records that procedure on your website. | |
| 75 | Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion yr ydych wedi eu cadw yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny. | You must provide any records you have kept in accordance with the record keeping standards with which you are under a duty to comply to the Welsh Language Commissioner, if the Commissioner asks for those records. | 13/08/2025 |